Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# RHAGLEN ARIANNU CYNLLUNIAU GWELLA HAWLIAU TRAMWY (Y RHAGLEN) 2013-14

## ADRODDIAD ALLBYNNAU DIWEDD Y FLWYDDYN.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys yr adrannau canlynol:


| Adran | Tudalen |
| --- | --- |
| 1. Cefndir | 3 |
| 2. Cyflawniadau Allweddol | 3 |
| 3. Trosolwg Ariannol | 4 |
| 4. Camau a Gymerwyd: Mathau o Waith a Wnaed | 7 |
| 5. Pwy a Ddylai gael Budd o'r Hyn a Wneir | 15 |
| 6. Dyrannu Arian i Grwpiau sy'n gwneud defnydd anghymesur o isel o gefn gwlad. | 18 |
| **Atodiad 1** - Rhestr o Amodau Cyllid | 20 |
| **Atodiad 2** – Crynodeb Gweithredol Gwerthusiad CGHT | 21 |

## Crynodeb Gweithredol

Mae'n ofynnol i awdurdodau priffyrdd lleol yng Nghymru lunio Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy (CGHTau) statudol o dan Adran 60 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

Maent yn gynllun wedi'i flaenoriaethu 10 mlynedd ar gyfer gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy lleol i bob defnyddiwr - cerddwyr, beicwyr, marchogwyr, defnyddwyr oddi ar y ffordd a phobl â phroblemau gyda'u golwg a phroblemau symud.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu arian i weithredu'r CGHTau hyn rhwng 2008 a 2014, gan ddefnyddio fformiwla ariannu i'r 22 o awdurdodau lleol a'r ddau Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru. Gweinyddwyd y rhaglen, sef "Rhaglen Ariannu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy", gan Cyfoeth Naturiol Cymru (a Chyngor Cefn Gwlad Cymru gynt) dros y cyfnod ariannu cyfan.

Defnyddiwyd yr arian i gyflawni ystod eang o gamau gweithredu er mwyn gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy yng Nghymru a sicrhau budd i bob rhan o gymdeithas.

Mae'r holl wybodaeth a roddir yn yr adroddiad hwn wedi cael ei darparu'n uniongyrchol gan yr awdurdodau lleol.

Mae prif bwyntiau'r adroddiad hwn fel a ganlyn:

- Gwelliannau ymarferol ar lawr gwlad yw'r cam a ariannwyd fwyaf o hyd
- Gwella gwybodaeth am Fynediad Llinellol a'r Modd y'i Hyrwyddir
- Prosiectau a gyflawnir yn anelu at fod o fudd i fwy nag un grŵp.
- Mae Defnyddwyr Anabl a phobl sy'n gwneud defnydd isel o gefn gwlad hefyd wedi cael budd

1. **CEFNDIR**

Mae'n ofynnol i awdurdodau priffyrdd lleol yng Nghymru lunio Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy (CGHTau) statudol o dan Adran 60 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Bwriedir iddynt gwmpasu cyfnod o 10 mlynedd a darparu cynllun wedi'i flaenoriaethu ar gyfer gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy lleol i bob defnyddiwr - cerddwyr, beicwyr, marchogwyr, defnyddwyr oddi ar y ffordd a phobl â phroblemau gyda'u golwg a phroblemau symud.

Dyrannodd Llywodraeth Cymru £1.7 miliwn y flwyddyn o arian cyfalaf i weithredu CGHTau yn 2008-9, 2009/10 a 2010/11 ac £1.4 miliwn yn 2011/12 a 2012/13 a £1 miliwn yn 2013/14.

Gofynnwyd i Gyngor Cefn Gwlad Cymru sefydlu Rhaglen Ariannu CGHT a gweinyddu a rheoli'r broses o ddyrannu arian i awdurdodau lleol. Ar 1[af] Ebrill 2013, daeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am y swyddogaethau a gyflawnwyd yn flaenorol gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru.

Rhydd y papur hwn wybodaeth a gasglwyd yn uniongyrchol gan bob un o'r 24 o awdurdodau a ariennir[1] (Pob un o'r 22 o awdurdodau lleol, Awdurdodau Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro) ar y gwaith **a wnaed** yn 2013-14, chweched blwyddyn y Rhaglen. Yn yr un modd, mae'r wybodaeth ariannol ac allbwn a roddir yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â'r 24 o awdurdodau a gafodd arian.

Yn ystod y cyfnod ariannu chwe blynedd, bu nifer o amodau y mae pob awdurdod lleol wedi eu cyflawni ar y cyfan. Am ragor o fanylion, gweler **Atodiad 1**.

2. **CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL**

Mae cyflawniadau allweddol yr arian a gafwyd yn 2013-14 fel a ganlyn:

1. **Gwelliannau ymarferol ar lawr gwlad:**
   Defnyddiwyd 70% o'r arian i wella mynediad presennol ar lawr gwlad, gan ddilyn y duedd a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol lle mae awdurdodau lleol yn defnyddio arian CGHT ar gyfer gwaith ymarferol ar lawr gwlad ar y cyfan. Mae'r gwaith hwn wedi helpu i gynyddu cyfran y rhwydwaith sy'n hawdd ei defnyddio. Unwaith eto, mae'r gwaith yn cynnwys gwella celfi llwybr fel pontydd, clwydi, gosod meinciau mewn golygfannau allweddol a gwella arwynebau e.e. gwella systemau draenio llwybrau.

2. **Gwelliannau sydd o fudd i fwy nag un grŵp - gan gynnwys cerddwyr, beicwyr a marchogwyr:**
   Mae'r duedd i wella hawliau tramwy i fwy nag un math o ddefnyddiwr yn parhau. Gyda'i gilydd, roedd prosiectau a oedd "o fudd cyffredinol i bob defnyddiwr" a phrosiectau "aml-fudd" (o fudd i fwy nag un math o ddefnyddiwr) yn cyfrif am 59% o gyfanswm gwerth prosiectau a 46% o gyfanswm nifer y prosiectau a ariannwyd eleni. Dengys hyn fod y Rhaglen yn cyflawni camau gweithredu ar gyfer llawer o wahanol weithgareddau ac amrywiaeth o alluoedd. Eleni 'aml-fudd yn cynnwys Grwpiau Defnydd Isel' oedd y categori a nodwyd ar gyfer y nifer fwyaf o gamau gweithredu (gan godi i 38% o werth yr arian o gymharu â 17% yn 2012/13). Caiff

[1] Mae 23 CGHT yn cwmpasu Cymru gyfan. O 2009-10, cafodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, sydd â CGHT ar y cyd â Chyngor Sir Penfro, arian yn uniongyrchol gan CCGC ac, felly, cyflwynodd adroddiadau ar waith a wnaed ar wahân i'r Cyngor.

natur y prosiectau hyn ei thargedu'n fwy penodol i ddiwallu anghenion pobl. Mae'r prosiectau amrywiol hyn yn darparu ar gyfer ystod eang o fuddiolwyr. Roedd 25% o brosiectau aml-fudd yn darparu ar gyfer y grŵp defnyddwyr "cerddwyr, beicwyr a marchogwyr". Roedd 10% o brosiectau aml-fudd yn darparu ar gyfer grwpiau 'defnydd isel', gan gynnwys defnyddwyr anabl, pobl â phroblemau symud, pobl â chadeiriau gwthio ac ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Roedd cerddwyr yn cyfrif am 24% o werth camau gweithredu'r rheini a fyddai'n cael budd o'r hyn a wnaed. Roedd gweddill y prosiectau hyn o fudd i ystod gyfan o ddefnyddwyr mewn cyfuniadau gwahanol e.e. "cerddwyr, Pobl â symudedd cyfyngedig", neu "Cerddwyr, Beicwyr, Marchogion, Gyrwyr Cerbydau, Defnyddwyr Cerbydau". Roedd sawl cyfuniad gwahanol o ddefnyddwyr.

3. **Gwelliannau sydd, yn benodol, yn hwyluso mynediad pobl a all gael trafferthion, megis pobl anabl, i'r awyr agored:**
   Wrth barhau i gyflawni amod ariannu Llywodraeth Cymru, cyflawnodd pob un o'r 24 o awdurdodau a ariannwyd o leiaf un prosiect a oedd yn anelu at ddiwallu anghenion pobl anabl, ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf[2], lleiafrifoedd ethnig neu grwpiau eraill sy'n gwneud defnydd anghymesur o isel o gefn gwlad yn well. Roedd 34 o gamau gweithredu yn targedu'r grwpiau 'defnydd isel' hyn, a oedd yn werth £207,711.

4. **Statws llwybrau a seilwaith gwell.**
   Mae 968km arall o'r rhwydwaith hawliau tramwy bellach yn hawdd ei ddefnyddio, yn dilyn gwelliannau y mae'r Rhaglen a ffynonellau eraill o gyllid wedi cyfrannu atynt yn 2013-14.

   Roedd y rhan fwyaf o'r llwybrau a gafodd eu gwella yn 2013/14 yn llwybrau troed neu'n llwybrau ceffylau, ond mae pob math o lwybr wedi gweld rhyw fath o welliant.

   Yn ôl gwybodaeth am y seilwaith a gafodd ei osod a'i waredu, gweithredir yr egwyddor mynediad leiaf cyfyngol er mwyn gwneud y rhwydwaith yn fwyfwy hygyrch, o flwyddyn i flwyddyn.

## 3. TROSOLWG ARIANNOL

Llwyddodd Is-adran Chwaraeon, Hamdden Awyr Agored a Thirweddau Llywodraeth Cymru i sicrhau blwyddyn arall o gyllid o'r Rhaglen yn 2013/14, gyda chyllideb o £1 filiwn. Gweithiodd CNC i reoli'r gyllideb er mwyn sicrhau cymaint o wariant o fewn y prosiect â phosibl (gan ailddyrannu tua £28,500 ym mis Ionawr 2013) a chyflawnwyd cyfanswm gwariant o £993,915 (99.4% o wariant y gyllideb).

Dyrannwyd arian Llywodraeth Cymru ar sail fformiwla ariannu gytûn, a oedd yn cynnwys y swm sylfaenol o £25,000 ar gyfer pob awdurdod gyda'r arian ychwanegol yn cael ei ddyrannu ar sail fformiwla. O fewn pob awdurdod, cyfrifwyd y fformiwla ar sail pwysoliad o 65% ar hyd hawliau tramwy cyhoeddus (gan gynnwys hawliau tramwy yn y parth arfordirol), 25% ar boblogaeth arferol (a ddiweddarwyd gan ddefnyddio data Cyfrifiad 2011) a 10% ar arwynebedd tir mynediad.

Rhydd yr adroddiad hwn wybodaeth am y miliwn o bunnoedd a roddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Rhaglen. Yn ogystal, buddsoddodd awdurdodau lleol eu harian eu hunain a chael gafael ar ffynonellau eraill o gyllid. Dengys Tabl 1 isod gyfanswm yr arian a wariwyd ar gamau gweithredu CGHT uwchlaw'r swm a roddwyd gan Lywodraeth Cymru.

2 Mae'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn strategaeth hirdymor ar gyfer gwella amodau byw a rhagolygon pobl sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

**Tabl 1**: Cyllid cyffredinol ar gyfer camau gweithredu'r Rhaglen **yn 2013-2014**

| Sefydliad | Arian a Ddyrannwyd (£) |
|---|---|
| **Cyllid Llywodraeth Cymru** | **1,000,000** |
| **Gwariant Awdurdodau Lleol (ALl)** | **426,207** |
| **Ffynonellau eraill o gyllid*** | **116,886** |
| **Cyfanswm y Rhaglen (£)** | **1,543,093** |

**Gwariant ALl**

Mae hyn yn cyfeirio at y swm y mae'r awdurdodau wedi cyfrannu o'u cronfeydd eu hunain uwchlaw eu dyraniad o'r Rhaglen ar gyfer 2013-14 (ond heb gynnwys costau staff).

***Ffynonellau eraill o gyllid:**

Hefyd, gofynnwyd i awdurdodau adrodd ar ffynonellau eraill o gyllid y bu modd iddynt gael gafael arnynt, yn ychwanegol at y ddwy brif ffynhonnell ar gyfer camau gweithredu CGHT.

Roedd y ffynonellau eraill o gyllid yn cyfateb i £116,886 ac yn cynnwys:

- Cronfa Ardoll Agregau
- Coed Lleol (Coed Actif Cymru)
- Cyngor Sir Swydd Amwythig
- Llwybrau Diogel
- Trefi Taclus
- Grŵp Marchogwyr Sir Gaerfyrddin
- Prosiect Canolfan Rhagoriaeth mewn Beicio Gogledd Cymru

D.S. Mae hyn fel arfer yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwyd gan awdurdodau lleol ar ddiwedd y flwyddyn yn eu hadroddiadau ariannol. Fodd bynnag, wrth ddadansoddi gwybodaeth 2013/14, roedd yn glir fod gan rai awdurdodau gyllidebau penodol o fewn eu hawdurdodau eu hunain o dan y categori hwn. Mae angen ymchwilio ymhellach er mwyn pennu a oedd hyn yn broblem mewn blynyddoedd blaenorol. Lle'r oedd hyn yn amlwg, cafodd y symiau eu hailddyrannu'n 'wariant ALl' fel bod 'Ffynonellau Eraill o gyllid', i'r graddau mwyaf posibl, yn cynrychioli ffynonellau *allanol* o gyllid.

Er y dylid bod yn ofalus wrth gymharu symiau â blynyddoedd blaenorol (o ganlyniad i'r mater uchod) mae'n amlwg bod 'ffynonellau eraill o gyllid' wedi lleihau'n sylweddol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o £601,437 yn 2012/13) tra bod gwariant ALl wedi cynyddu (o £198,969 yn 2012/13). Deallwn fod 'ffynonellau eraill o gyllid' wedi lleihau yn sgil y ffaith bod nifer o gytundebau ariannu allanol wedi dod i ben yn 2012/13, a all hefyd egluro'r cynnydd mewn gwariant ALl lle nad oedd angen yr arian hwn mwyach at ddiben arian cyfatebol.

**Tabl 2: Cynigion ariannu a'r cyfanswm a hawliwyd 2013-2014**

| Awdurdod | Cynnig Ariannu (£) | Diwygiadau Ariannu a Ffurflenni | Cyfanswm a hawliwyd (£) |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 32,733 | | 32,733 |
| Blaenau Gwent | 26,513 | | 26,513 |
| Bannau Brycheiniog | 48,022 | 4,400 | 52,422 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 31,979 | 2,000 | 33,979 |
| Caerffili | 36,345 | | 36,344 |
| Caerdydd | 35,000 | -16,500 | 18,500 |
| Sir Gaerfyrddin | 52,436 | | 52,435 |
| Ceredigion | 51,476 | | 51,476 |
| Conwy | 45,647 | | 45,647 |
| Sir Ddinbych | 38,906 | 7,239 | 46,144 |
| Sir y Fflint | 36,723 | | 36,723 |
| Gwynedd | 72,980 | | 72,980 |
| Merthyr Tudful | 23,772 | | 23,772 |
| Sir Fynwy | 39,885 | -6,066 | 33,819 |
| Castell-nedd Port Talbot | 34,161 | | 34,161 |
| Casnewydd | 29,002 | | 29,002 |
| Cyngor Sir Penfro | 22,922 | | 22,922 |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | 22,922 | 4,123 | 27,045 |
| Powys | 115,824 | | 115,824 |
| Rhondda Cynon Taf | 38,674 | | 38,658 |
| Abertawe | 36,019 | 7,239 | 43,256 |
| Torfaen | 27,992 | | 27,992 |
| Bro Morgannwg | 30,391 | 2,000 | 32,391 |
| Wrecsam | 34,676 | 1,500 | 36,177 |
| **Cyfanswm** | **965,000** | **5,935** | **970,915** |
| Adroddiad Gwerthuso CGHT | 35,000 | 12,000 | 23,000 |
| **Cyfanswm Cyffredinol** | **1,000,000** | **-6,065** | **993,915** |

Dengys Tabl 2 uchod y cynigion ariannu ac unrhyw ailddyrannu a ddigwyddodd yn ystod 2013/14.

**Cynnig Ariannu:**

Gofynnodd Llywodraeth Cymru am i CNC ddefnyddio rhan o gyllideb y Rhaglen i gomisiynu Gwerthusiad o Weithredu CGHT a'r Rhaglen Ariannu CGHT. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannu, dyrannwyd £35,000 i dalu am y gwaith gwerthuso a chynigiwyd y £965,000 a oedd yn weddill i awdurdodau. Cwblhawyd y Gwerthusiad gan Resources for Change Ltd, gydag Asken Ltd, (Atodiad 2 Crynodeb Gweithredol) a chodwyd £23,000 am y gwaith hwn.

**Diwygiadau Ariannu a Ffurflenni:**

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, bu'n rhaid i'r awdurdodau sicrhau bod 40% o'r arian yn cael ei hawlio erbyn yr ail derfyn amser (mis Rhagfyr 2013) er mwyn helpu i reoli'r gyllideb a'n helpu ni i sicrhau bod yr holl arian yn cael ei ddefnyddio yn ystod y flwyddyn. Bodlonwyd y gofyniad hwn gan bob awdurdod a chafodd 58% o gyllideb

gyfan y Rhaglen ei hawlio erbyn mis Rhagfyr 2013, yn sylweddol uwch na'r amod o 40%.
Ym mis Ionawr 2014, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y gallai'r £12,000 a oedd yn weddill o'r gyllideb Werthuso gael ei ailddyrannu i awdurdodau. Ar y pryd cafodd CNC wybod gan Gyngor Sir Caerdydd na fyddai'n gallu defnyddio £16,500 o'i arian oherwydd problemau trwyddedu, a oedd yn golygu bod £28,500 o gyllid y Rhaglen ar ôl i'w ailddyrannu.

O 21ain Ionawr gallai unrhyw awdurdod o fewn Rhaglen Ariannu CGHT a oedd mewn sefyllfa i ofyn am gyllid ychwanegol wneud cais. Gallai'r arian gael ei ddefnyddio ar gyfer blaenoriaethau presennol neu newydd CGHT ar yr amod bod modd defnyddio'r arian erbyn 20fed Chwefror 2013. Cafodd y cyfanswm o £28,500 ei ailddosbarthu i saith Awdurdod Lleol.

Cafwyd tanwariant o £6,065 yn y flwyddyn ariannol hon (0.6% o'r gyllideb). Gellir priodoli'r rhan fwyaf o'r tanwariant i Gyngor Sir Fynwy, a wnaeth ein hysbysu, ar y cam hawlio olaf, na fyddai'n gallu prosesu anfoneb hwyr mewn da bryd ac erbyn hyn roedd yn rhy hwyr i ni ailddyrannu'r cyllid.

Cafodd pob hawliad arall ei gyflwyno ar amser a chyda'r ddogfennaeth briodol.

## 4. CAMAU A GYMERWYD: MATHAU O WAITH A WNAED

### TROSOLWG

Mae'r math o waith y gellir ei wneud i weithredu CGHTau yn eang ei gwmpas. Dosbarthodd awdurdodau eu camau gweithredu yn ôl 'Mathau o Gamau a Gymerwyd o dan y Rhaglen' y cytunwyd arnynt. Drwy ddadansoddi nifer y grwpiau o wahanol gamau gweithredu a'u gwerth ceir gwybodaeth am y math o waith a wnaed gan awdurdodau.


Dosbarthwyd y camau gweithredu fel a ganlyn:

a) **Gwella mynediad llinellol presennol:** gwneud gwelliannau ffisegol i lwybrau e.e. gwella arwyneb llwybrau, gosod neu atgyweirio camfeydd, clwydi a chelfi eraill ar hyd llwybrau.
b) **Creu mynediad llinellol newydd:** creu llwybrau newydd yn ffisegol.
c) **Gwella cyfleoedd mynediad eraill:** er enghraifft, gwella mynediad i dir mynediad agored/mannau gwyrdd naturiol eraill.
d) **Gwella gwybodaeth am fynediad llinellol a'r modd y'i hyrwyddir:** er enghraifft arwyddion a chyfeirbwyntiau, ar y safle (e.e. paneli dehongli), oddi ar y safle (e.e. taflenni), gwefan, digwyddiadau, a marchnata.
e) **Gwella systemau/prosesau rheoli mynediad llinellol**: er enghraifft, systemau cynnal, gorfodi, monitro, adrodd.
f) **Gwella cofnodion/cronfeydd data ar gyfer gwaith rheoli mynediad llinellol:** er enghraifft diweddaru'r map diffiniol, creu fersiwn digidol o'r map diffiniol, neu ddatblygu/gwella system rheoli hawliau tramwy cyhoeddus electronig.
g) **Dadansoddi mynediad llinellol ymhellach:** er enghraifft, arolygon/dadansoddiadau ychwanegol o ddarpariaeth mynediad neu ddadansoddiad ychwanegol o'r defnydd a wneir o fynediad.
h) **Mathau eraill o gamau gweithredu:** lle nad oedd unrhyw un o'r uchod yn gymwys.

Dengys **Tabl 3** a **Siart 1** isod ddadansoddiad o nifer o gamau a gymerwyd yn 2013-14 (yn nhrefn gwerth). Rhoddir dadansoddiad manwl o'r sawl a gafodd budd o'r camau hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

| **Mathau o Gamau a gymerwyd o dan y Rhaglen** | **Nifer y Camau Gweithredu** | **Gwerth y Camau Gweithredu (£)** | **Gwerth y camau fel % o'r dyraniad** |
|---|---|---|---|
| a) gwella mynediad llinellol presennol | 128 | 672,507 | 70% |
| f) Arall | 16 | 109,434 | 11% |
| ch) gwella gwybodaeth am fynediad llinellol a'r modd y'i hyrwyddir | 16 | 83,459 | 9% |
| dd) gwella cofnodion/cronfeydd data ar gyfer gwaith rheoli mynediad llinellol ac e) dadansoddi mynediad llinellol ymhellach | 6 | 47,547 | 5% |
| d) gwella systemau/prosesau rheoli mynediad llinellol | 6 | 24,927 | 3% |
| c) gwella cyfleoedd mynediad eraill | 10 | 22,560 | 2% |
| b) creu mynediad llinellol newydd | 1 | 9,922 | 1% |
| e) dadansoddi mynediad llinellol ymhellach | 1 | 561 | 0% |
| **Cyfanswm** | **184** | **970,917** | **100%** |

**Siart 1**




Yn 2013-2014, roedd 70% o'r prosiectau yn ymwneud â gwella mynediad llinellol presennol. Mae hyn yn atsain y duedd a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol lle mae'r rhan fwyaf o ddyraniad y Rhaglen ar gyfer gwaith ymarferol ar lawr gwlad. Prosiectau 'eraill' oedd yn ail o ran y nifer fwyaf o fathau o brosiectau. Mae'r prosiectau a restrir yn brosiectau sydd â mwy nag un elfen yn perthyn iddynt. Yn eu plith mae'r canlynol:

- 'Cyflogi cynorthwyydd i helpu gyda gwaith grant CGHT yn gyffredinol, ymgynghori â grwpiau defnyddwyr a thirfeddianwyr, arolygu "lonydd gwyrdd", cydgysylltu grwpiau gwirfoddol a hyrwyddo llwybrau gwell. – f) ) ch), d), dd)'

- ‘Llwybr Dyffryn Sirhywi a Dyffryn Wysg. Gwaith i gynnwys gosod arwyddion newydd ar hyd y ddau lwybr ac ymestyn y ddau gyswllt i Lwybr Arfordir Cymru - f) a) gwella mynediad llinellol presennol, b) creu mynediad llinellol newydd, c) gwella cyfleoedd mynediad eraill'

- 'Ystyried ail-lunio taflen Llwybr Cerdded y Drenewydd i Dregantllo a chynnwys rhan o Lwybr Arfordir Cymru fel bod y llwybr mewn cylch. Gwella arwyneb a strwythurau Llwybr Troed 22 Corneli fel bod cyswllt rhwng Nottage a Llwybr Arfordir Cymru a llunio taflen sy'n darparu cylchdaith fach - f) a) gwella mynediad llinellol presennol, ch) gwella gwybodaeth am fynediad llinellol a'r modd y'i hyrwyddir'

- Lle na chafodd prosiectau (2 ohonynt) eu categoreiddio gan yr awdurdodau lleol, fe'u hychwanegwyd at gategori f).

**ALLBYNNAU A MANYLION**

O ystyried pob un o'r mathau hyn o gamau gweithredu yn eu tro, gallwn edrych yn

fanylach ar nodweddion y gwaith dan sylw. Rhydd Tablau 4 i 14 ddadansoddiad pellach o'r mathau o gamau gweithredu a nodir uchod.

**Gwella mynediad llinellol presennol a chreu mynediad llinellol newydd (mathau o gamau a a b).**

Gwariwyd £682,429 ar wella mynediad llinellol presennol ac mae'r gwaith a wnaed yn debyg iawn i flynyddoedd blaenorol fel:

- Llwybrau pren - o wahanol hyd dros ardaloedd mwdlyd neu ardaloedd nad oeddent yn hygyrch gynt.
- Meinciau - gwella hygyrchedd llwybrau drwy alluogi defnyddwyr y llwybrau i eistedd a gorffwys ar hyd y ffordd a rhoi cyfle i bawb aros a mwynhau'r olygfa fel rhan o'u hymweliad.
- Grisiau - sefydlogi llethrau a berai drafferth gynt a galluogi'r defnyddwyr i barhau ar hyd y llwybr.
- Gwaith ar yr arwyneb - gwella'r arwyneb fel y gall pobl ddefnyddio'r llwybrau yn haws e.e. llwybrau ysgol i blant gerdded i'r ysgol.
- Dileu rhwystrau fel camfeydd.
- Cysylltu llwybrau mewn ardaloedd trefol
- Clirio llystyfiant yn sylweddol er mwyn gwella mynediad a chynyddu bioamrywiaeth
- Gosod rhwystr newydd er mwyn arafu beicwyr a gwahardd gweithgarwch anghyfreithlon gan ddiogelu plant ysgol ifanc drwy hynny
- Codi pontydd

Dim ond un prosiect a wnaeth greu mynediad llinellol newydd, sef creu llwybr troed dros gwrs golff yn Sir Benfro

Dengys Tabl 4 isod y rhannau o lwybrau a gafodd eu gwella er mwyn cyrraedd safonau 'Hawdd eu Defnyddio' Dangosydd Perfformiad Cenedlaethol Cymru. Gofynnwyd i awdurdodau adrodd ar gyfanswm hyd y llwybr a gafodd ei wella ar sail cysylltiadau - yn ôl y diffiniad mae cysylltiad hawliau tramwy cyhoeddus yn dechrau ac yn gorffen lle mae'n cwrdd â:

- chyffordd â hawl dramwy gyhoeddus arall;
- ffordd ac iddi wyneb metlin;
- ffordd bengaead.

Diben gwneud hyn oedd dangos faint o'r rhwydwaith yr oedd bellach yn *hawdd i'r cyhoedd ei ddefnyddio* o ganlyniad i welliannau, ac nid dim ond y rhannau o lwybrau y gwnaed gwaith ffisegol arnynt. **Ni ddylai** cyfanswm y rhwydwaith dan sylw gael ei briodoli i waith ac arian o dan y Rhaglen yn unig. Yn hytrach, mae'r Rhaglen wedi cyfrannu at hyn, ynghyd â sefydliadau eraill a ffynonellau eraill o gyllid (yr awdurdodau lleol eu hunain yn bennaf).

**Tabl 4: Statws a Hyd Llwybr y mae'r Rhaglen wedi helpu i'w wneud yn 'Hawdd ei Ddefnyddio' yn ystod 2013/14 (gan gynnwys cyfraniadau gan ffynonellau eraill o gyllid).**

| Statws | Km o rwydwaith 'hawdd ei ddefnyddio' |
|---|---:|
| Llwybr troed | 524 |
| Llwybr beicio | 56 |
| Llwybr ceffylau | 157 |
| Cilffyrdd Cyfyngedig | 33 |

| | |
|---|---|
| Cilffordd Sydd Ar Agor i Unrhyw Draffig | 18 |
| **Cyfanswm** | **788** |

Dengys Tabl 4 uchod mai llwybrau troed yw'r math mwyaf cyffredin o lwybr a gaiff ei wella o bell ffordd, sy'n adlewyrchu'r ffaith bod rhwydwaith Cymru yn cynnwys llwybrau troed yn bennaf (79%)[3]. Dengys dadansoddiad o'r wybodaeth hon fod y llwybrau gwell hyn ar draws Cymru,

Nodwn, ers 2012/13, fod y Rhaglen wedi cyfrannu at 60% yn llai o waith 'Hawdd ei Ddefnyddio' ac nid yw'r rheswm dros hyn yn glir. Fodd bynnag, yn ogystal â'r ffigurau a geir yn y tabl, gwnaeth un awdurdod (Sir Ddinbych) welliannau i isffyrdd fel rhan o welliannau i ddefnyddwyr, gan ddatblygu 182.15km. Gan nad yw isffyrdd yn destun y dangosydd 'hawdd ei ddefnyddio' nid ydynt wedi'u cynnwys uchod. Petai'r ffigur hwn yn cael ei ychwanegu, byddai cyfanswm o 970.15km, gan olygu ei fod uwchlaw'r cyfanswm blynyddol isaf, sef 895km yn 2009/10 pan ddyrannwyd £1.7 miliwn.

Mae'r gwelliannau hyn yn parhau i ddangos budd ehangach gwneud llwybrau'n fwy hygyrch yn gyffredinol.

**Tabl 5: Seilwaith a osodwyd o'r newydd neu a ddisodlwyd o dan Raglen 2013-14.**

| Seilwaith Newydd/a Ddisodlwyd | Nifer yr eitemau |
|---|---|
| Camfeydd | 55 |
| Clwydi | 421 |
| Pontydd | 61 |
| Mynegbyst | 266 |
| Cyfeirbwyntiau | 232 |

**Tabl 6: Seilwaith a waredwyd o dan Raglen 2013-14.**

| Seilwaith a Waredwyd | Nifer yr eitemau |
|---|---|
| Camfeydd | 114 |
| Clwydi | 11 |

Rhydd Tablau 5 a 6 wybodaeth am waith a wnaed ar seilwaith o dan y Rhaglen. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, gosodwyd/disodlwyd mwy o glwydi na chamfeydd, a chafodd mwy o gamfeydd eu gwaredu. Mae hyn yn galonogol, gan ei fod yn dangos bod awdurdodau yn dilyn arfer da a chanllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru, sy'n tanlinellu pwysigrwydd cymryd camau 'mynediad lleiaf cyfyngol'. Mae hyn yn galluogi cynifer o bobl â phosibl i ddefnyddio'r llwybrau a gaiff eu gwella.

Ymhlith y seilwaith arall a osodwyd mae:

- Camfa i geffylau
- Cwlfert - Codi pont droed fach a gosod gatiau mochyn yn lle camfeydd.
- Rhwystr Igam-ogamu - Gosod rhwystr newydd er mwyn arafu beicwyr a gwahardd gweithgarwch anghyfreithlon gan felly ddiogelu plant ysgol ifanc.
- Meinciau

**Camau gweithredu sy'n rhan o lwybr rhanbarthol/yn cysylltu â Llwybr Cenedlaethol neu Lwybr Arfordir Cymru.**

[3] Adroddiad Ymchwil Polisi CCGC Rhif. 03/05 - Arolwg o Gyflwr Hawliau Tramwy Cymru 2002

Gofynnwyd i awdurdodau nodi achosion lle'r oedd mathau o gamau gweithredu a) a b) yn cynnwys gwaith ar lwybr rhanbarthol neu ar gysylltiadau â Llwybr Cenedlaethol neu Lwybr Arfordir Cymru.

O'r £672,507 a wariwyd ar fynediad llinellol, dengys y tabl isod fod 42% o'r swm hwn (£284,188) wedi'i ddefnyddio ar lwybrau sydd, mewn rhyw ffordd, yn cael eu hyrwyddo ac mae'n tanlinellu pa mor bwysig yw cynnal a chadw a gwella eu prif lwybrau i awdurdodau.

**Tabl 7: Camau gweithredu sy'n rhan o lwybr rhanbarthol/yn cysylltu â Llwybr Cenedlaethol neu Lwybr Arfordir Cymru yn ystod 2013-14**

| Math o Lwybr | Nifer y Camau Gweithredu | Gwerth y Camau Gweithredu (£) | Gwerth fel % o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Llwybr Rhanbarthol | 11 | 90,245 | 33% |
| Llwybr Arfordir Cymru | 16 | 53,847 | 19% |
| Llwybr Cenedlaethol | 4 | 29,307 | 7% |
| Arall | 22 | 110,711 | 41% |
| **Cyfanswm** | **53** | **284,188** | **100%** |

Cafodd y rhan fwyaf o brosiectau 'eraill' eu hyrwyddo'n lleol ac roeddent yn llwybrau cymunedol, Yn ogystal, roedd y mathau o brosiectau a oedd yn perthyn i'r categori 'arall' hwn yn cynnwys:

- Cysylltiadau â'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol
- Llwybrau a enwyd yn benodol

**<u>Math o gam gweithredu c) gwella cyfleoedd mynediad eraill.</u>**

Yn ogystal â hawliau tramwy lleol, dylai CGHTau gynnwys gwybodaeth am fathau eraill o fynediad mewn ardal awdurdod. Dangosodd Adolygiad o CGHT Cymru CCGC[4] fod 4% o holl Gamau Gweithredu CGHT yn ymwneud â thir mynediad a ddynodwyd o dan Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy a bod 6% yn ymwneud â chyfleoedd mynediad eraill. Nodir y mathau hyn o gamau gweithredu o dan y Rhaglen yng nghategori c) gwella cyfleoedd mynediad eraill - dengys tabl 8 isod y mathau eraill o gyfleoedd mynediad a gafodd eu gwella yn 2013/14. Defnyddiwyd 2.3% o'r rhaglen ariannu i wella mynediad arall, gan adlewyrchu'r pwyslais a roddir ar fynediad llinellol yn y CGHTau eu hunain.

**Tabl 8: Mathau o Fynediad a gafodd eu gwella o dan gategori c) gwella cyfleoedd mynediad eraill 2013/14**

| Math o Fynediad | Nifer y Camau Gweithredu | Gwerth y Camau Gweithredu (£) | Gwerth fel % o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Mannau Gwyrdd Naturiol | 2 | 6,358 | 28% |
| Tir Mynediad Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy | 2 | 5,930 | 26% |
| Arall | 6 | 10,272 | 46% |
| **Cyfanswm** | **10** | **22,560** | **100%** |

[4] Adroddiad Ymchwil Polisi CCGC Rhif. 08/26. Evison, Taylor a Coleman. (2009) *Wales ROWIP Review*.

O blith y chwe phrosiect 'arall', ni wnaeth pedwar awdurdod ddisgrifio'r gwaith ymhellach, gwnaeth un gynnwys gwaith ar lwybrau ar draws mannau gwyrdd agored a gwnaeth un gynnwys gwella arwyddion llwybrau.

**Math o gam gweithredu ch) gwella gwybodaeth am fynediad llinellol a'r modd y'i hyrwyddir.**

Y math hwn o gam gweithredu oedd y cydradd ail fwyaf cyffredin i'w ariannu (o ran y nifer o gamau) ac roedd yn cyfrif am 9% o'r dyraniad ariannol cyffredinol eleni. Mae'r math hwn o gam gweithredu wedi bod yn ddefnydd cyson boblogaidd o arian y Rhaglen. Dangosodd Adolygiad CGHT CCGC mai 'gwaith hyrwyddo oddi ar y safle' oedd yr ail fath o gam gweithredu bwriadedig mwyaf cyffredin ar ôl 'rheoli'. Gall y math hwn o gam gweithredu gael ei gyflawni am gost gymharol isel ac mae hefyd yn hanfodol er mwyn annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored gan fod hyrwyddo llwybrau yn rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr bod y llwybrau hyn ar agor ac ar gael.

Rhydd y tabl canlynol ddadansoddiad o'r mathau o wybodaeth a gwaith hyrwyddo a ariannwyd.

**Tabl 9: Math o gam gweithredu ch) gwella gwybodaeth am fynediad llinellol a'r modd y'i hyrwyddir**

| Math o wybodaeth | Nifer y Camau Gweithredu | Gwerth y Camau Gweithredu (£) | Gwerth fel % o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Oddi ar y Safle | 3 | 7,099 | 9% |
| Arwyddion a Chyfeirbwyntiau | 5 | 20,772 | 25% |
| Gwefan | 2 | 16,243 | 19% |
| Digwyddiadau | 2 | 16,585 | 20% |
| Ar y safle | 1 | 1,330 | 2% |
| Arall | 3 | 21,429 | 26% |
| **Cyfanswm** | **16** | **83,458** | **100%** |

Mae arwyddion a chyfeirbwyntiau yn dal i fod yn agwedd hollbwysig ar wella ymwybyddiaeth o'r rhwydwaith hawliau tramwy. Mae'r rhain yn codi ymwybyddiaeth o leoliad llwybrau ar lawr gwlad ac yn rhoi hyder i ddefnyddwyr fod ganddynt yr hawl i'w defnyddio. Mae arwyddion a chyfeirbwyntiau hefyd yn sail bwysig i daflenni, gwefannau â mapiau a digwyddiadau i hyrwyddo llwybrau allu adeiladu arni.

Mae gwybodaeth oddi ar y safle e.e. taflenni yn dal i fod yn ffordd boblogaidd o rannu gwybodaeth â'r cyhoedd. Maent yn gymharol rad i'w cynhyrchu a gellir eu cludo i fannau gwahanol e.e. ffeiriau gwledig, canolfannau ymwelwyr, diwrnodau agored a digwyddiadau hyrwyddo eraill. Mae hefyd yn hawdd trosi'r copi papur yn fersiwn digidol ar gyfer y we a all gael ei ddiweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau. Golyga hyn y gall awdurdodau lleol hyrwyddo llwybrau i gynulleidfa dechnolegol yn ogystal â'r rhai y mae'n well ganddynt afael ar rywbeth yn eu llaw. Ymhlith y taflenni a gynhyrchwyd yn 2013/14 mae Hyrwyddo llwybrau beicio oddi ar y ffordd yn Nhorfaen, hyrwyddo Taith Taf ym Merthyr Tudful a bioamrywiaeth ym Mharc Gwledig Dyffryn Moss yn Wrecsam.

Mae digwyddiadau sy'n dylunio ac yn hyrwyddo'r rhwydwaith hawliau tramwy lleol yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o geisio annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored. Maent yn cynnig ffordd o ryngweithio â defnyddwyr newydd a phresennol drwy siarad â hwy a dysgu beth hoffent ei gael a beth maent yn ei ddisgwyl gan eu rhwydwaith hawliau tramwy lleol. Mae digwyddiadau hefyd yn gyfle delfrydol i hyrwyddo'r hyn sydd ar gael yn barod, er

enghraifft,

**Tabl 10: Math o gam gweithredu d) gwella systemau/prosesau rheoli mynediad llinellol 2013/14**

Rhaid sicrhau bod mynediad llinellol yn cael ei reoli mewn ffordd briodol a hyddysg er mwyn creu rhwydwaith hawliau tramwy sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Dengys y tabl isod y mathau o waith a wneir o dan y Rhaglen sy'n ymwneud â systemau a phrosesau ar gyfer gwella gwaith rheoli
.

| Math o Gam Gweithredu | Nifer y Camau Gweithredu | Gwerth y Camau Gweithredu (£) | Gwerth fel % o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Adrodd | 1 | 1,088 | 4% |
| Cynnal a chadw | 3 | 17,671 | 71% |
| Monitro | 1 | 739 | 3% |
| Arall | 1 | 5,429 | 22% |
| **Cyfanswm** | **6** | **24,927** | **100%** |

Ymhlith y prosiectau cynnal a chadw roedd:

- Cynnal arolwg cyflwr 60% o'r rhwydwaith
- Warden Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn arolygu llwybrau a gaiff eu hyrwyddo ac yn cyflawni gwelliannau i hawliau tramwy cyhoeddus fel arwyddion, cyfeirbwyntiau a negodi'r lleihad yn nifer y rhwystrau ac agor llwybrau anhygyrch. Bydd y Warden hefyd yn cyflawni un gwelliant o leiaf i sicrhau cadwraeth bioamrywiaeth leol.

Ymhlith y prosiectau adrodd mae:

- Adroddiadau'n deillio o ddyfeisiau cyfrif electromagnetig arbenigol a osodwyd er mwyn rhoi gwybodaeth gywir am ddefnydd modurol yn Sir Ddinbych.

**Tabl 11: Math o gam gweithredu dd) gwella cofnodion/cronfeydd data ar gyfer gwaith rheoli mynediad llinellol 2013/14**

| Math o Gam Gweithredu | Nifer y Camau Gweithredu | Gwerth y Camau Gweithredu (£) | Gwerth fel % o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Dwyn ynghyd y map diffiniol | 4 | 41,083 | 86% |
| Datblygu/gwella system reoli electronig hawliau tramwy cyhoeddus | 1 | 5,000 | 11% |
| Ailddosbarthu lleoliadau amrywiol ffyrdd a ddefnyddir fel llwybrau cyhoeddus ledled y sir | 1 | 1,464 | 3% |
| **Cyfanswm** | **6** | **47,547** | **100%** |

Mae gwaith ar y Map Diffiniol wedi parhau yn 2013-14. Cafwyd lefel gyson o fewnbwn wrth ddiweddaru'r Map Diffiniol yn ystod y cyfnod ariannu pum mlynedd sy'n dangos bod y math hwn o gam gweithredu yn dal i fod yn sail i reoli hawliau tramwy ac yn nodwedd barhaus mewn CGHTau.

Cafwyd dwy swydd cyfnod penodol yn gweithio ar y Map Diffiniol a ariannwyd yn llawn gan y Rhaglen. Nid oes modd nodi'r gost o gyflogi staff oherwydd gofynnwyd i'r awdurdodau lleol nodi costau fesul prosiect yn hytrach nag yn ôl staff mewn swydd.

**Tabl 12: Math o gam gweithredu e) dadansoddi mynediad llinellol ymhellach 2012/14**

| Math o ddadansoddiad | Nifer y Camau Gweithredu | Gwerth y Camau Gweithredu (£) | Gwerth fel % o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Arolygon/gwaith dadansoddi pellach mewn perthynas â darparu mynediad | 1 | 561 | 100% |
| **Cyfanswm** | **1** | **561** | **100%** |

Roedd y camau hyn fel a ganlyn:

- Datblygu ymhellach y rhwydwaith o wirfoddolwyr ym meysydd gwaith arolygu a gwaith cynnal a chadw sylfaenol a all gynnwys hyfforddiant (Caerffili)

**Tabl 13: Math o gam gweithredu f) Arall 2013/14**

| | Nifer y Camau Gweithredu | Gwerth y Camau Gweithredu (£) | Gwerth fel % o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Arall | 16 | 109,434 | 100% |
| **Cyfanswm** | **16** | **109,434** | **100%** |

Roedd y camau a nodwyd fel "Arall" yn cynnwys mwy nag un math o gam gweithredu e.e. roedd rhai prosiectau yn cynnwys elfen o gam gweithredu a) gwella mynediad llinellol yn ogystal â math o gam gweithredu ch) gwella gwybodaeth am fynediad llinellol a'r modd y'i hyrwyddir. Felly, roedd yn anodd gosod y cam gweithredu penodol hwnnw o fewn meini prawf presennol mathau o gamau gweithredu.

Ymhlith yr enghreifftiau o'r mathau "Eraill" o gamau gweithredu mae:

- Gosod Gwâl Dyfrgwn ar hyd llwybr cerdded ym Mharc Glan-yr-afon (Prosiect Bioamrywiaeth Casnewydd)

- Ystyried ail-lunio taflen Llwybr Cerdded y Drenewydd i Dregantllo a chynnwys rhan o Lwybr Arfordir Cymru fel bod y llwybr mewn cylch. Gwella arwyneb a strwythurau Llwybr Troed 22 Corneli er mwyn cysylltu Nottage a Llwybr Arfordir Cymru a chreu taflen sy'n darparu cylchdaith fach. (Pen-y-bont ar Ogwr)

- Paratoi Map Diffiniol newydd, dadansoddi data CAMS ac adrodd arnynt. (Bro Morgannwg)

**Tabl 14: Camau gweithredu a oedd yn cynnwys elfen o fioamrywiaeth 2013/14**
Roedd amrywiaeth o brosiectau a oedd hefyd yn helpu'r cyhoedd i ddeall bioamrywiaeth leol neu ei gadwraeth.

| Math o gam gweithredu Bioamrywiaeth | Nifer y Camau Gweithredu | Gwerth y Camau Gweithredu (£) | Gwerth fel % o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Prosiectau Bioamrywiaeth | 43 | 320,040 | 100% |
| **Cyfanswm** | **43** | **320,040** | **100%** |

Mae 'prosiectau bioamrywiaeth' yn cyfeirio at gamau gweithredu sy'n gwella mynediad ac o fudd i gadwraeth natur/bioamrywiaeth hefyd. Gall y camau gweithredu hyn fodoli

ar sawl ffurf megis:

- Cymryd tri llwybr (un yn arfordirol) a'u defnyddio i ddatblygu pecyn cymorth a fydd yn galluogi grwpiau cymunedol lleol i ddehongli, gwella a datblygu llwybrau a hyrwyddir a chyhoeddiadau, gan dynnu sylw at faterion iechyd/bywyd gwyllt/tirwedd/nodweddion treftadaeth â dosbarthiad wedi'i dargedu fel yr amlinellir mewn cynnyrch cerdded (Sir Fynwy)

- Gwella bioamrywiaeth ar hyd y llwybr a'r rhwydwaith hawliau tramwy drwy weithio gyda grwpiau gwirfoddol sydd wedi cofrestru i fabwysiadu cynllun llwybrau (Merthyr Tudful)

- Creu llwybr caniataol drwy goetir er mwyn cael mynediad i safleoedd ecolegol ac archeolegol sydd wedi'u gwella a darparu paneli dehongli (Torfaen)

- Taflen bioamrywiaeth (Wrecsam)

- Arolwg Ecolegol a dehongli (Bro Morgannwg)

Mae elfen o gynnwys y cyhoedd yn perthyn i'r camau gweithredu hyn, hynny yw, mae aelodau o'r cyhoedd yn dysgu am fioamrywiaeth leol ar hyd y llwybrau a ddefnyddir ganddynt. Gellir cyflawni hyn ar ffurf byrddau dehongli mewn mannau allweddol ar hyd llwybr, neu mewn mannau mynediad i warchodfa natur leol neu daflenni ar fflora a ffawna lleol a ddosberthir mewn ffeiriau gwledig neu ysgolion.

Mae rhai o'r camau gweithredu bioamrywiaeth hyn yn debyg iawn i gam gweithredu ch) Gwella gwybodaeth am fynediad llinellol a'r modd y'i hyrwyddir, lle mae'r gwaith a wneir o dan y math hwn o gam gweithredu yn cynnwys paneli dehongli, taflenni a digwyddiadau.

## 5. PWY A DDYLAI GAEL BUDD O'R HYN A WNEIR

Gofynnwyd i awdurdodau nodi pwy a ddylai gael budd o bob cam gweithredu.

**Tabl 15: Isod dangosir prif fuddiolwyr y Rhaglen, sy'n cynnwys yr holl gamau gweithredu a ariannwyd gan y Rhaglen a'r holl fuddiolwyr yn 2013/14**

| Buddiolwyr | Nifer y Camau Gweithredu | Gwerth y Camau Gweithredu (£) | Gwerth fel % o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Aml-fudd (yn cynnwys Grwpiau Defnydd Isel) | 67 | 373,350 | 38% |
| Cerddwyr | 68 | 236,777 | 24% |
| Budd cyffredinol i bob defnyddiwr | 19 | 203,056 | 21% |
| Pobl â Phroblemau Symud | 12 | 79,845 | 8% |
| Eraill | 9 | 42,646 | 4% |
| Grwpiau eraill sy'n gwneud defnydd isel o gefn gwlad | 4 | 16,144 | 2% |
| Marchogwyr | 2 | 9,359 | 1.0% |
| Beicwyr | 2 | 5,450 | 0.6% |
| Defnyddwyr Anabl | 1 | 4,291 | 0% |
| **Cyfanswm** | **184** | **970,918** | **100%** |

Yn rhaglen eleni, roedd 21% o'r camau gweithredu "o fudd cyffredinol i bob defnyddiwr" ac roedd 38% yn "aml-fudd" h.y. o fudd i fwy nag un grŵp o ddefnyddwyr. Gyda'i gilydd, roedd y prosiectau hyn yn cyfrif am 59% o gyfanswm gwerth yr arian a gafwyd eleni.

Yma, fel yn Adolygiad CGHT Cymru (2009) ac mewn blynyddoedd blaenorol, y grŵp unigol mwyaf o ddefnyddwyr sy'n debygol o gael budd o'r camau gweithredu yw cerddwyr sy'n adlewyrchu'r ffordd y mae llwybrau troed yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r rhwydwaith hawliau tramwy yng Nghymru. Hefyd, nid oes modd i grwpiau eraill o ddefnyddwyr gael budd penodol yn yr un modd â cherddwyr, oherwydd bydd gwelliannau i lwybrau ceffylau a llwybrau beicio hefyd o fudd i gerddwyr ac felly maent yn gynhenid 'aml-fudd'. Roedd prosiectau i gerddwyr yn cyfrif am 24% o ddyraniad ariannol y Rhaglen a 37% o'r nifer gyffredinol o gamau gweithredu.

Un o'r amodau drwy gydol y cyfnod ariannu chwe blynedd oedd bod yn rhaid i bob awdurdod lleol gynnwys o leiaf un cam gweithredu a oedd o fudd i grwpiau 'Defnydd Isel' a ddiffiniwyd fel "grwpiau sy'n gwneud defnydd anghymesur o isel o gefn gwlad", er enghraifft:

- defnyddwyr anabl
- pobl â phroblemau symud,
- pobl ifanc,

Petai awdurdod yn cofnodi cam gweithredu fel un "Defnydd Isel" yna roedd yn gam gweithredu a ddyluniwyd yn benodol i'r grwpiau o bobl a nodwyd uchod.

O astudio'r data ymhellach, mae grwpiau defnydd isel hefyd yn cael eu cynrychioli mewn camau gweithredu eraill nad ydynt yn targedu grwpiau defnydd isel yn benodol.

Roedd camau a gofnodwyd yn rhai "aml-fudd" yn gamau lle cafwyd mwy nag un grŵp y bwriadwyd iddynt yn benodol gael budd o'r gwaith, gan gynnwys y grwpiau hynny a all gael mynediad i gefn gwlad yn haws ac yn amlach h.y. cerddwyr a beicwyr yn ogystal â grwpiau "defnydd isel" nad yw mor hawdd iddynt gael mynediad i gefn gwlad.

Tra bod prosiectau sydd "o fudd cyffredinol i bob defnyddiwr" yn dueddol o ganolbwyntio ar systemau cynllunio a gwella prosesau rheoli.

Dengys Tabl 15 uchod fod 67 o gamau gweithredu yn rhai "aml-fudd" h.y. o fudd i fwy nag un math penodol o ddefnyddiwr. Mae'r dadansoddiad o'r camau hyn fel a ganlyn:

- ➢ Roedd 15 o gamau gweithredu yn cynnwys grwpiau 'Defnydd Isel' a chofnodwyd eu bod o fudd i'r canlynol: "cerddwyr, defnyddwyr anabl a rhieni â chadeiriau gwthio / bygis", "cerddwyr, beicwyr, defnyddwyr anabl, pobl â phroblemau symud, grwpiau eraill sy'n gwneud defnydd isel o gefn gwlad, Cymunedau yn Gyntaf".

- ➢ Cofnodwyd bod 52 o gamau gweithredu yn rhai 'aml-fudd' ac yn targedu cyfuniadau o ddefnyddwyr mwy abl fel:

  - 19 o gamau a oedd o fudd penodol i "gerddwyr, beicwyr a marchogwyr"
  - pum cam a oedd o fudd penodol i "gerddwyr, beicwyr, marchogwyr a thirfeddianwyr"
  - pedwar cam a oedd o fudd penodol i "gerddwyr, beicwyr, marchogwyr a gyrwyr cerbydau, defnyddwyr cerbydau, tirfeddianwyr"
  - o pedwar cam a oedd o fudd penodol i "gerddwyr, marchogwyr, beicwyr a gyrwyr cerbydau"

Mae'r un peth yn wir am farchogwyr a beicwyr. Er mai dim ond 19 o gamau

gweithredu sydd ar gyfer "cerddwyr, beicwyr a marchogwyr" yn benodol, dengys dadansoddiad o'r 184 o gamau eu bod hefyd yn cael eu cynrychioli mewn camau sy'n targedu'n benodol grwpiau defnydd isel yn ogystal â mewn cyfuniadau o ddefnyddwyr gwahanol. Hefyd, bydd unrhyw gamau gweithredu sydd o fudd i farchogwyr a beicwyr yn rhai aml-fudd ar y cyfan, oherwydd bydd gwelliannau i lwybrau ceffylau a llwybrau beicio hefyd o fudd i gerddwyr.

Mae'n galonogol iawn gweld bod 8% o'r dyraniad ariannol cyffredinol wedi'i ddefnyddio ar gyfer camau sydd wedi'u hanelu'n benodol at bobl â phroblemau symud. Ymhlith yr enghreifftiau o waith mae:


- Rhaglen i ariannu'r gwaith o osod clwydi neu fylchau yn lle camlesi lle ceir safleoedd neu gyfleusterau er mwyn gwaredu celfi cyfyngol presennol lle mae rhai defnyddwyr yn ei chael hi'n anodd cael mynediad (Sir Ddinbych)

- Nodi a chyflawni prosiectau penodol er mwyn ehangu darpariaeth i bawb drwy osod pum ardal meinciau picnic hamdden â mynediad i gadeiriau gwthio ac olwyn (Merthyr Tudful)

- Prynu Gatiau Mochyn Symudedd Canolig yn lle camlesi ar hyd rhannau o lwybr Ffordd Maelor o Hanmer i Bronington (Wrecsam)

- Canllawiau newydd (Torfaen)

**Siart 2**



## 6 DYRANNU ARIAN I GRWPIAU SY'N GWNEUD DEFNYDD ANGHYMESUR O ISEL O GEFN GWLAD

Fel rhan o ofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer y Rhaglen, nodwyd y byddai angen i awdurdodau wneud o leiaf un gwelliant a oedd yn anelu at fynd ati i ddiwallu anghenion pobl ag anableddau, ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, lleiafrifoedd ethnig neu grwpiau eraill sy'n gwneud defnydd anghymesur o isel o gefn gwlad yn well.

**Tabl 16: Math o grŵp 'defnydd isel', nifer a gwerth camau gweithredu**

| Buddiolwr | Nifer y Camau Gweithredu | Gwerth y Camau Gweithredu (£) | Gwerth fel % o'r buddiolwyr |
|---|---|---|---|
| Aml-fudd | 15 | 90,974 | 45% |
| Pobl â phroblemau symud | 12 | 79,845 | 39% |
| Defnyddwyr Anabl | 1 | 4,291 | 2% |
| Pobl â Phroblemau Symud | 1 | 11,957 | 6% |
| Grwpiau eraill sy'n gwneud defnydd isel o gefn gwlad | 4 | 16,144 | 8% |
| Arall * | 1 | 500 | 0% |
| **CYFANSWM** | **34** | **203,711** | **100%** |

Ymhlith y rhai sydd wedi cael budd o'r 15 o gamau gweithredu aml-fudd mae:

- Pobl Ifanc, Cerddwyr, Defnyddwyr Anabl, Pobl â phroblemau symudedd, teuluoedd ifanc, beicwyr
- Cerddwyr, marchogwyr, defnyddwyr cerbydau, beicwyr. Cyswllt i gerddwyr Edward St, gwella mynediad i bawb. Maesgwyn - ardal Cymunedau yn Gyntaf.
- Defnyddwyr defnydd isel yn ogystal â rhai defnyddwyr â chyfyngiadau symud

Marchogwyr oedd yr "arall" yn y categori hwn.

Rhydd y dadansoddiad yn Nhabl 17 isod werth gwahanol 'Fathau o Gamau Gweithredu' h.y. y math o waith a wneir. Mae a wnelo'r rhan fwyaf o'r gwaith ar gyfer grwpiau 'defnydd isel' â gwella mynediad llinellol presennol.

**Tabl 17: Math o waith a wnaed ar gyfer grwpiau 'defnydd isel' a gwerth y gwaith hwnnw 2013/14**

| Math o Gam Gweithredu | Gwerth y Camau Gweithredu (£) |
|---|---|
| a) gwella mynediad llinellol presennol | 145,704 |
| b) creu mynediad llinellol newydd | 9,922 |
| c) gwella cyfleoedd mynediad eraill | 8,778 |
| ch) gwella gwybodaeth am fynediad llinellol a'r modd y'i hyrwyddir | 22,856 |
| f) Arall | 16,451 |
| **Cyfanswm** | **203,711** |

Mae'r gwaith a wnaed ar gyfer grwpiau 'defnydd isel' wedi bod yn debyg i flynyddoedd blaenorol ac wedi cynnwys:

- ailosod arwyneb ffyrdd fel y gall defnyddwyr cadair olwyn gael mynediad
- gosod celfi mynediad hawdd a meinciau i bobl â phroblemau symud
- mynediad llwybr bordiau
- prynu sgwter symudedd ar gyfer teithiau tywys
- creu llwybr i bobl ag anableddau

Cafodd un cam gweithredu ei gategoreiddio'n "Arall" gan yr awdurdod, a oedd ychydig dros £16,451 sef:

- Gwella Llwybr Cerdded Glan-yr-afon yng Nghastellnewydd Emlyn. Roedd yn cynnwys mathau o gamau gweithredu a), b), c) ac ch) a bwriadwyd iddo fod o fudd i gerddwyr, defnyddwyr anabl, pobl â phroblemau symud, pobl ifanc, pobl sy'n gwneud defnydd isel o gefn gwlad

Unwaith eto, gwelwyd llawer o gamau yn cyflawni yn erbyn mwy nag un math o gam gweithredu yn 2013-2014. Mae'n galonogol gweld bod awdurdodau lleol yn cyflawni gwaith ar lawr gwlad sy'n "ticio mwy nag un blwch" ac felly yn cael y mwyaf allan o'r Rhaglen.

**DIWEDD**

Paratowyd y papur hwn gan:
Susan Jackson (Swyddog Cyllid CGHT),
Carys Drew (Cynghorydd Hamdden a Mynediad)
Awst 2014

**Atodiad 1**
**Rhestr o Amodau Rhaglen Ariannu CGHT a weithredwyd gan Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod 2008-2013.**
(roedd y rhain yn ychwanegol at amodau cynnig grant arferol CCGC/CNC)

1. Bydd yr awdurdodau lleol yn rhoi cadarnhad ysgrifenedig ymlaen llaw y bydd yr arian CGHT a ddyrennir yn ychwanegol at eu cyllid arfaethedig ar gyfer gwaith rheoli cefn gwlad cyffredinol – h.y. na fydd y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio yn lle eu cyllid eu hunain (yn unol â pharagraff 5 o Atodlen 5);

2. Bydd y cyllid CGHT yn arian ar wahân ac ychwanegol ar gyfer gwaith blaenoriaeth ac ni fydd yn addas ar gyfer arian cyfatebol yng nghyswllt grant cefn gwlad Cyfoeth Naturiol Cymru.

3. Awdurdodau i gytuno i gydymffurfio â'r amodau ariannu manwl a osodwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru mewn cysylltiad â'r fframwaith ariannu hwn, gan gynnwys darparu gwybodaeth berthnasol drwy adroddiadau cynnydd a thynnu'r cyllid i lawr yn unol ag amserlen Cyfoeth Naturiol Cymru (yn angenrheidiol at ddibenion archwilio'r ddwy ochr).

4. Pob awdurdod yn cyflawni o leiaf un gwelliant sy'n anelu at ddiwallu anghenion pobl anabl, ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, lleiafrifoedd ethnig neu grwpiau eraill sy'n gwneud defnydd anghymesur o isel o gefn gwlad yn well. Ym mhob gwaith gwella hawliau tramwy 'ar lawr gwlad', dylai'r awdurdodau mynediad hefyd geisio cydymffurfio, lle bynnag y bo modd, â'r canllawiau statudol a roddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol dan Adran 69 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ac â chanllawiau cysylltiedig Cyfoeth Naturiol Cymru 'Trwy Bob Modd Rhesymol' [a thrwy hynny ddilyn egwyddor y Mynediad Lleiaf Cyfyngedig er budd cynifer o ddefnyddwyr cefn gwlad ag sy'n bosibl].

5. Dylai fersiwn terfynol o CGHT fod wedi'i gwblhau erbyn 15 Medi 2008 ym mhob awdurdod mynediad sy'n anelu at dynnu cyllid i lawr dan y fframwaith hwn.

6. Rhaid i'r awdurdod roi'r CGHT ar y rhyngrwyd erbyn Medi 2009. Dylid anfon manylion y ddolen berthnasol ar gyfer y we at y Swyddog Cyllid CGHT ar ôl bodloni'r amod hwn. Ceidw Cyfoeth Naturiol Cymru yr hawl i dynnu'r cynnig o gyllid yn ôl os na fydd awdurdod yn bodloni'r amod hwn.

7. Rhaid i awdurdodau hawlio 40% o'u dyraniad cyllid erbyn Rhagfyr [y flwyddyn honno].

8. Wedi'i gyflwyno ym Mlwyddyn 3, dylai pob awdurdod i gyflawni o leiaf un gwelliant rhwydwaith a fydd hefyd yn hybu dealltwriaeth y cyhoedd o fioamrywiaeth leol neu'n helpu i warchod bioamrywiaeth leol.

9. Wedi'i gyflwyno ym Mlwyddyn 3, caniatawyd i awdurdodau lleol ddefnyddio cyllid Rhaglen Ariannu CGHT yn y Parth Arfordirol pan newidiodd y Rhaglen Gwella Mynediad i'r Arfordir ganolbwynt y rhaglen o'r Parth Arfordirol a Llwybr Arfordir Cymru i ganolbwyntio ar Lwybr Arfordir Cymru yn unig mewn pryd ar gyfer agoriad swyddogol y Llwybr ym mis Mai 2012.

10. Bydd cyllid Rhaglen Ariannu CGHT yn arian ar wahân ac ychwanegol ar gyfer gwaith blaenoriaeth ac ni fydd yn addas ar gyfer arian cyfatebol mewn cysylltiad â grant cefn gwlad Cyfoeth Naturiol Cymru. Er hyn, gellir defnyddio Rhaglen Ariannu CGHT a grant Cyfoeth Naturiol Cymru i ariannu prosiect sy'n cael ei ariannu'n ehangach ar yr amod nad yw elfennau Cyfoeth Naturiol Cymru a Rhaglen Ariannu CGHT y prosiect yn fwy na 50% o'r costau.

**Atodiad 2**

**Gwerthusiad o'r broses o Weithredu CGHT a Rhaglen Ariannu CGHT**